

# Rhagarweiniad i Gynhwysiad Iechyd: pam fod hyn yn bwysig?

Gweminar

19eg Mehefin 2024

---

## Gweminar Rhagarweiniad i Gynhwysiad Iechyd: pam fod hyn yn bwysig?

**Agenda - Mercher 19eg Mehefin, 13:00 – 14:30**

Amser	Eitem	Pwy
13.00	Croeso a threfniadau ymarferol	Fatima Sayed, Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
13.05	Rhagarweiniad i Gynhwysiad Iechyd: pam fod hyn yn bwysig?	Kerry Bailey, Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
13.15	Trosolwg o Wasanaeth Cynhwysiad Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Heledd Jones, Cyfarwyddwr Clinigol Cynorthwyol, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro
13.25	Egwyl a barn mynychwyr am weminarau Cynhwysiad Iechyd ychwanegol	
13.35	Trosolwg o Wasanaeth Cynhwysiad Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Star Moyo, Nyrs, Hŷn. Gwasanaeth Cynhwysiad Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
13:45	Gwasanaeth digartrefedd dan arweiniad nyrsys – cromliniau dysgu a straeon llwyddiant	Rebecca Bullingham, Nyrs Ymarferydd Uwch, Meddygfa Oakfield
13.55	Sesiwn Holi ac Ateb gyda Siaradwyr	Cyflwynwyr Lorraine O'Leary, Rheolwr Nyrs Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Janet Keauffling, Nyrs, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
14.25	Sylwadau i glori	Kerry Bailey, Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru Rhagarweiniad i Iechyd Cynhwysiant

Dr Kerry Bailey, Ymgynhorydd mewn Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru, & Meddyg teulu Iechyd i'r digartref


Cydnabyddiaethau– Fatima Sayed, Victoria Tice, Harvey Carmen, Holly McAnoy, Sian Jones, Zoe Wallace, Charlotte Grey, Huw Brunt, Steph Perrett a llawer mwy

Allanol - Ayla Cosh, Karen Gully, Grŵp Cynhwysiant Iechyd Nyrsys

# Trosolwg

- Cyflwyniad i Iechyd Cynhwysiant a Gofal Sylfaenol
- Cefnogi datblygiad gwasanaethau iechyd cynhwysiant gofal sylfaenol a manyleb seiliedig ar le
- Ymagwedd
- Adnoddau hyfforddi
- Negeseuon allweddol
- Trosglwyddo'r awenau i gydweithwyr er enghraifft - gwasanaethau gofal sylfaenol wedi'u cynllunio a'u haddasu ar gyfer y bobl fwyaf anghenus





# Iechyd Cynhwysiant? Pwy?

## 'Anfanteision difrifol a lluosog yn gorgyffwrdd'

- Pobl sy'n profi digartrefedd neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan gynnwys:
  - Y rhai mewn llety dros-dro ac ansefydlog,
  - Pobl ifanc neu'r rhai sy'n gadael gofal ac mewn perygl o fod yn ddigartref.
- Pobl sydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r system cyfiawnder troseddol.
- Pobl sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid, gweithwyr mudol bregus ac ymfudwyr heb eu dogfennu neu wedi'u masnachu.
- Gweithwyr rhyw
- Roma, Sipsiwn a Theithwyr.

\*wedi'i addasu o'r Gyfadran Iechyd Cynhwysiant





ACEs  
Trawma Cymhleth  
Ymwneud â chyfiawnder troseddol

Ansicr o ran cartref

Diffyg addysg

Ffactorau risg lluosog sy'n gorgyffwrdd ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol gwael

Ansicrwydd bwyd

Tlodi

Diweithdra

**Anhenion iechyd cynyddol**

## Rhwystrau i gael mynediad at ofal iechyd

- Stigma
- Ofn
- Profiadau gwael yn y gorffennol
- Iaith
- Cyflenwi gwasanaethau
- Proffesiynol



Mynediad salach er gwaethaf mwy o angen

**Deilliannau iechyd gwael**





## Prevalence of homelessness in Wales

1 in 14 (7%) have lived experience of homelessness



People who sleep rough are more likely to die prematurely compared to the general population

Average age of death of people experiencing homelessness is

44 years  
for men

42 years  
for women



compared to

76 years  
for men

81 years  
for women

in the general population

### Relative prevalence of the top 3 long term health conditions in homeless vs general population groups

General population comparison group

Hypertension

Chronic pulmonary disease

Cardiac arrhythmias

Individuals with lived experience of homelessness



6%



10%



4%




\*Ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd



# HEALTH INCLUSION PROGRAMME WALES

## Health and wellbeing needs of inclusion health groups:

People Experiencing Homelessness | Refugees and Asylum Seekers | Gypsy, Roma and Travelling Communities | Sex Workers | Individuals in Contact with the Criminal Justice Systems




Health inclusion groups face specific and extreme health and wellbeing inequalities that are complex, often co-occurring and are unique to the circumstances and experiences faced by the individual but there are commonalities across.

**\*Ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd**

# Cynorthwyo â Gweithredu Gwasanaethau Iechyd Cynhwysiant

## Cynyrchion

- Data ac Epidemioleg ar gyfer cynllunio
  - Niferoedd, anghenion, gwariant, pob grŵp cymwys
- Deall yr holl Wasanaethau a bylchau
  - Pob gwasanaeth gofal sylfaenol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer grwpiau agored i niwed yng Nghymru
- Cyfeiriadur Addysg a Hyfforddiant
- **Manyleb** newydd ar gyfer cynllunio ar sail lle, yn seiliedig ar NICE a'r Gyfadran Iechyd Cynhwysiant, tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid
- **Pobl - gweithio trwy Systemau**
- Cymunedau o Fuddiannau – Nyrsys Iechyd Cynhwysiant, rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus
- LIC - Grŵp Cynhwysiant Iechyd Cenedlaethol, Grŵp Anghydraddoldebau Iechyd y GIG
- Ymgysylltu'n eang – Byrddau Iechyd, Academiâu, cynlluniau hyfforddi meddygon teulu, 'meddygfeydd mwy diogel', awdurdodau lleol, trydydd sector, cyfiawnder troseddol, a.y.b.



Directory of Education and Training in Inclusion Health for Health Professionals

Primary Care Division- Public Health Wales  
Version 1.0 (2024-2025)  
Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Gymraeg/This document is available in Welsh.



Cardiff Health Inclusion Service Case Study

December 2023



GIG C Y M R U  
N H S  
W A L E S | Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

# Cyfeiriadur Addysg a Hyfforddiant yn y Maes Iechyd Cynhwysiant ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol - Gofal Sylfaenol Un (gig.cymru)

- [gofalsylfaenolun.gig.cymru/files/cyfeiriadur-addysg-a-hyfforddiant-yn-y-maes-iechyd-cynhwysiant-ar-gyfer-gweithwyr-iechyd-proffesiynol-pdf/](https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/files/cyfeiriadur-addysg-a-hyfforddiant-yn-y-maes-iechyd-cynhwysiant-ar-gyfer-gweithwyr-iechyd-proffesiynol-pdf/)





Figure 1: Hierarchy of training resources

This section is the most extensive in the directory and is made up of four tables:

**Table 1 (Universal):** Training courses, toolkits and resources relevant to all healthcare staff to support knowledge and understanding of inclusion health.

**Table 2 (Supplementary):** Training courses and resources relevant to all staff interested in the health needs of inclusion health groups and staff who provide inclusion health services.

**Table 3 (Special Interest):** Training courses and resources for staff who want to gain more in-depth knowledge of health inequalities and inclusion health as a sub-speciality.

'Ymagwedd drws-agored at grwpiau wedi'u hallgáu am sawl rheswm, gyda chroeso cynnes yn seiliedig ar egwyddorion gofal sy'n ael eu llywio gan drawma ac amgylcheddau â chymhwysedd a sensitifrwydd diwylliannol.'

### **Gwerthoedd ac Ymagwedd**

- a. Person-ganolog, empathetig ac anfeirniadol.
- b. Parhad gofal gyda pherthnasoedd parchus yn seiliedig ar ymddiriedaeth yn cael eu ffurfio.
- c. Gwasanaethau a gynlluniwyd i leihau rhwystrau i fynediad – allgymorth, hunan-atgyfeirio, trothwy isel, amseroedd apwyntiad hyblyg, siop un stop.
- d. Gofal ac amgylcheddau sy'n cael eu llywio gan seicoleg a thrawma.
- e. Sensitifrwydd diwylliannol.

Archwilio mewnwelediadau 'byw'n dda' a dymuniadau'r claf ar gyfer hyrwyddo gwneud penderfyniadau ar y cyd

# Rhaglen Iechyd Cynhwysiant Gofal Sylfaenol

- Negeseuon allweddol - Mae pawb yn haeddu'r iechyd gorau posibl
- Mae **ysgogwyr** anghydraddoldebau iechyd y tu allan i Ofal Iechyd, ond gall gofal iechyd liniaru neu gynyddu anghydraddoldebau, yn dibynnu ar sut y cânt eu darparu
- Gydag anfanteision lluosog difrifol sy'n gorgyffwrdd, mae yna 'ymyl clogwyn' o ran risg ar gyfer clefydau corfforol, meddyliol, aciwt, cronig, trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy - llawer ohonynt y gellir eu hatal
- **Mae tystiolaeth yn dangos bod angen gwasanaethau wedi'u cynllunio'n arbennig er mwyn lliniaru ymyl y clogwyn**
- Gall hyn ddigwydd yn gyffredinol mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a hynny'n barchus ac anfeirniadol
- Mae angen i bob ardal ystyried yr angen, y ddarpariaeth a'r cyllid ar gyfer gwasanaethau allgymorth, o fewn cyrraedd, sy'n seiliedig ar leoedd
- Mae llawer o wasanaethau'n dibynnu ar gyllid byr-dymor, ansicr ac annigonol
- Nid oes gan rai ardaloedd unrhyw wasanaethau penodol ar gyfer pobl agored i niwed
- - **Cynhwysiant Iechyd Gofal Sylfaenol Iechyd Cymru 2024**



Diolch – ac yn awr i glywed gan y rheng flaen

[kerry.bailey2@wales.nhs.uk](mailto:kerry.bailey2@wales.nhs.uk)


Cynhwysiad Iechyd Gofal Sylfaenol, Iechyd  
Cyhoeddus Cymru



# Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro CAVHIS

---

Dr Heledd Jones  
GP, CAVHIS




Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board



# Trosolwg o CAVHIS

- Canolfan Gwasanaethau Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro (CAVHIS), Ysbyty Brenhinol Caerdydd
- Clinig Sain Tathan, Bro Morgannwg
- Gwasanaeth allgymorth i'r digartref, Caerdydd
- Gwasanaeth Mewngymorth i'r digartref yn yr Uned Frys, Ysbyty Athrofaol Cymru
- Gwasanaeth Cynllun Triniaeth Amgen (ATS), Ysbyty Brenhinol Caerdydd
- Addysgu – myfyrwyr, meddygon teulu, staff ysbytai
- Tudalennau Llwybrau Iechyd – Iechyd Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, gwybodaeth am boblogaethau digartref
- Ymchwil



# Hwb CAVHIS



- Ceiswyr lloches, aduniad teuluol, ffoaduriaid digartref, ffoaduriaid - cynlluniau Wcráin ac Afghanistan
- Nyrsys oedolion a phediatrig – Asesiadau cychwynnol, imiwneiddio, rheoli clefydau cronig, sgrinio serffigol, mân salwch
- HCA – sgrinio gwaed ac ymchwiliol, ECG, pwysau gwaed
- Bydwraig – gofal cyn-geni ac ôl-enedigol, clinig FGM
- Ymwelydd Iechyd – plant dan 5 oed
- Meddyg Teulu – anghenion gofal sylfaenol
- Y Groes Goch Brydeinig – cymorth gydag unrhyw fater anghlinigol, eiriolaeth, atgyfeirio i'r trydydd sector, e.e. cwnsela, cofrestru â meddyg teulu, atgyfeiriad deintyddol ac optegydd, cyfeiriadedd cymunedol
- Clinig Clefydau Heintus – ar gyfer cleifion CAVHIS yn unig, ar y safle gyda fferylllydd clefydau heintus a meddyginiaethau'n cael eu darparu. Bob dau fis
- Clinig ffisiotherapi – Ar gyfer cleifion CAVHIS sy'n cael trafferth i optio i mewn ar gyfer gwasanaeth. Yn fisol
- Mae clinig TB yn cael ei gynnal o fewn yr un adran â'r Adran Iechyd Rhywiol, yn yr un adeilad

# Aseiad Cychwynnol i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

---

- Codio – ffoaduriaid, ceisiwr lloches, digartref, iaith, anghenion dehongli, lefel llythrennedd
- Iechyd cyn/ôl-enedigol (gan gynnwys hanes imiwneiddio, FGM), hanes meddyginiaeth, iechyd rhywiol
- Materion deintyddol neu'n ymwneud â'r golwg
- Hanes sgrinio serfigol / taflen wybodaeth wedi'i darparu
- Taith i'r DU – gwledydd, modd, profiadau
- Trais yn y cartref, cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, artaith, masnachu mewn pobl, carcharu
- Map y corff o unrhyw anafiadau

## Cardiff and Vale Health Inclusion Service Initial Assessment Screening Protocol for asymptomatic adults

BLOOD TESTS FOR ALL	TB SCREENING
FBC	IGRA test if <65 years old
Iron Studies	Before offering IGRA, screen for symptoms of active TB:
Haemoglobinopathy Screening (Request and lab to process if MCV <80 and/or MCH <27)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Persistent cough for &gt;3 weeks</li> <li>• Coughing up blood</li> <li>• Fever</li> <li>• Night sweats</li> <li>• Significant weight loss</li> <li>• Enlarged lymph nodes</li> </ul>
Folate, Ferritin & B12	
U&E	
LFTs	
HIV	If symptoms present consider active TB, Request CXR and refer to TB team.
Hepatitis B	
Hepatitis C	If person from country with high prevalence of MDRTB request CXR as part of initial screening
Syphilis	
Strongyloides <sup>1</sup>	Stools for Ova, Cysts and Parasites (OCP)
Schistosomiasis <sup>1</sup>	
Trypanosoma Cruzi (Chagas) if from Central or South America <sup>4</sup>	<b>If symptomatic of reflux/gastric symptoms:</b> Stool for H-Pylori (if patient taking a PPI, refer to GP prior to collecting sample)
Hba1c - If hx of diabetes or CV Risk factors	Height, Weight, Blood pressure
Vitamin D – Only if symptomatic – otherwise offer supplementation at 400iu daily	Urine Chlamydia/Gonorrhoea NAAT for all <25s or if > 25 and history suggests appropriate to test. Extra-genital Chlamydia/Gonorrhoea if history indicates
<b>If pregnant, give 400mcg daily folic acid for first trimester</b>	
REVIEW IMMUNISATIONS FOR ALL	
Catch up immunisations – use PHE schedule for individuals with uncertain or incomplete immunisation status <sup>2</sup>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• DTP,MMR, Men C if &gt;10 years old</li> <li>• HPV females (born on/after 1/9/91), males (born on/after 01/9/06) until 25th birthday</li> <li>• Check schedule if &lt;10 years old</li> <li>• Consider Hepatitis B vaccination if at risk<sup>3</sup></li> <li>• Cannot give MMR to pregnant women, if non-immune to rubella, for MMR after delivery of baby</li> </ul> Facilitate Covid and Influenza vaccinations as needed if appropriate.	
NATIONAL SCREENING PROGRAMME	
• Offer Cervical screening to women aged 25-64 every 5 years	



# Sgrinio oedolion CAVHIS

## Cardiff and Vale Health Inclusion Service Initial Assessment Screening Protocol for asymptomatic children

All children >2yrs to receive a stat dose of Albendazole 400mg for treatment of parasitic infection as per PSD.

All children <5yrs to receive a supply of multivitamins

BLOOD TESTS FOR ALL	TB SCREENING
FBC Iron Studies Haemoglobinopathy Screening (Request and lab to process if MCV <80 and/or MCH <27) U&E LFTs Ferritin Vitamin D HIV Hepatitis B Hepatitis C Syphilis Strongyloides <sup>1</sup> Schistosomiasis <sup>1</sup> Trypanosoma Cruzi (Chagas) if from Central or South America <sup>4</sup>	<p><b>Screen for symptoms of active TB:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Persistent cough for &gt;3 weeks</li> <li>• Coughing up blood</li> <li>• Fever</li> <li>• Night sweats</li> <li>• Significant weight loss</li> <li>• Enlarged lymph nodes</li> </ul> <p>If symptoms present consider active TB, Request CXR and refer to TB team.</p> <p><b>Asymptomatic Screening:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• &lt;2 years - Mantoux Test</li> <li>• &gt;2 years - IGRA Bloods</li> <li>• No hx BCG or visible scar – Mantoux Test</li> </ul> <p><b>Children from a country with high incidence of Multi-Drug Resistant TB:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• &gt;11 years – CXR</li> </ul>
<p>If venepuncture failed at second visit to CAVHIS then liaise with Starfish. Give patient completed request forms, including IGRA bottles, to take to their Starfish appointment.</p>	Stools for Ova, Cysts and Parasites
	Height & Weight
	Consider urine Chlamydia/Gonorrhoea NAAT if history suggests appropriate
REVIEW IMMUNISATIONS FOR ALL	
Catch up immunisations – use PHE schedule for individuals with uncertain or incomplete immunisation status <sup>2</sup> <ul style="list-style-type: none"> <li>• DTP,MMR, Men C if &gt;10 years old</li> <li>• HPV females (born on/after 1/9/91), males (born on/after 01/9/06) until 25th birthday</li> <li>• Check schedule if &lt;10 years old</li> <li>• Consider Hepatitis B vaccination if at risk<sup>3</sup></li> <li>• Facilitate Covid and Influenza vaccinations as needed if appropriate</li> </ul>	
<b>All vaccine DNAs need to be contacted and re-booked if still in Cardiff IA</b>	



# Sgrinio Pediatrig CAVHIS





# Gwasanaeth Digartref CAVHIS

**ALLGYMORTH:** Nyrsys ar gyfer y digartref wedi'u lleoli mewn hosteli rheng-flaen gyda staff yn cyflenwi mewn hosteli eraill ac allgymorth stryd. Dydd Llun - Dydd Gwener.

- Gofal clinigol uniongyrchol
- Clinig meddyg teulu bob bore Llun-Gwener
- Cefnogaeth meddygon teulu gan ganolfan CAVHIS
- Tîm Amlddisgyblaethol y Cyngor (camddefnyddio sylweddau, dietegydd, therapi galwedigaethol, iechyd meddwl, cwnsela)
- Cysylltiad â gwasanaethau eraill, e.e. practis meddyg teulu, gofal eilaidd, camddefnyddio sylweddau, nyrsys ardal, tîm gofal clwyfau
- Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol – clinig allgymorth unwaith yr wythnos i'r digartref mewn hostel (ddim yn rhan o CAVHIS)

**MEWNGYMORTH UNED FRYS:** Nyrs i'r digartref wedi'i lleoli yn yr Adran Achosion Brys, Ysbyty Athrofaol Cymru o ddydd Llun i ddydd Iau

- Atgyfeiriad gan staff yr Uned Frys, staff wardiau, nyrsys digartref, staff hostelau
- Eiriolaeth
- Dull cyfannol
- Cynllun bag ysbyty
- Anghenion tai
- Cyswllt â'r tîm seiciatrig, tîm camddefnyddio sylweddau, tîm clefydau heintus, tîm rhyddhau o'r ysbyty, tîm poen aciwt, clinig trawma
- Cyswllt â nyrs allgymorth digartrefedd a meddyg teulu ar gyfer apwyntiad dilynol ar ôl rhyddhau o'r ysbyty.
- Addysgu – sefydlu staff



# Gwerthusiad mewnol o'r gwasanaeth presennol

## Beth sy'n gweithio'n dda?

- Cysylltiadau a chyfathrebu da rhwng gwasanaethau
- Gweithio mewn tîm
- Rheolaeth ragweithiol o gleifion
- Darpariaeth hyblyg o ofal
- Amser
- Clinigau penodol CAVHIS

## Bylchau yn y gwasanaeth

- Ceiswyr lloches allan o lety cychwynnol
- Cleifion digartref wedi'u cofrestru fel rhai dros-dro ar hyn o bryd
- Pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar (o fis Rhagfyr ymlaen)
- Pobl sy'n gwneud gwaith rhyw
- Y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr

# Diolch Thank you

---

Heledd Jones

GP and Assistant Clinical Director CAVHIS

heledd.jones5@wales.nhs.uk



# Rhagarweiniad i Gynhwysiad Iechyd: pam fod hyn yn bwysig?

Gweminar

19eg Mehefin 2024

---

# Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd

Is adran Gofal Sylfaenol a Chymuned  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  
Star Moyo Nyrs Hŷn

# Pwy ydyn ni?

- ▶ Gwasanaeth a arweinir gan nyrsys yng Nghasnewydd sy'n cwmpasu 5 Bwrdeistref y Bwrdd Iechyd
- ▶ Mae'r tîm yn cynnwys Nyrsys Iechyd Meddwl, Nyrsys Cyffredinol Cofrestredig, Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a gweinyddwr tîm
- ▶ Rydym yn cefnogi grwpiau sy'n agored i niwed gan gynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid, y digartref, y rhai sy'n gwneud gwaith rhyw a'r cymunedau sipsiwn Romani/teithwyr
- ▶ Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd cael gofal iechyd mewn modd traddodiadol oherwydd y rhwystrau y maent yn eu hwynebu. Mae'r rhain yn cynnwys rhwystrau iaith, ffyrdd o fyw anhrefnus, iechyd meddwl gwael a diffyg dealltwriaeth o'r ffordd orau i gael mynediad at wasanaethau



# Hanes y Gwasanaeth

Cyn sefydlu gwasanaethau lechyd Cynhwysol, dim ond darpariaeth nyrsio ar gyfer ceiswyr lloches oedd ym Mwrdeistref Casnewydd

Gorffennaf 2020



Dilynwyd hyn gan ailgynllunio gwasanaeth i gwmpasu holl ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (Gwent Gyfan) ac roedd yn cynnwys yr holl grwpiau rydym yn cynnig cymorth iddyn nhw nawr.



Dechreuwyd gydag 1 nyrs, 1 gweithiwr cymorth gofal iechyd rhan-amser ac 1 gweinyddwr rhan-amser.

Mae'r tîm bellach yn cynnwys Uwch Nyrs, Nyrs Iechyd Meddwl, 2 Nyrs Gyffredinol, 3 gweithiwr cymorth gofal iechyd a gweinyddwr tîm.

# Yr hyn y wnawn?


- ▶ Rydym yn gweithio gydag unigolion agored i niwed ar draws y grwpiau cleientiaid i sicrhau yr eir i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a bod yr unigolion hynny'n cael eu cefnogi a'u grymuso i gael mynediad at ofal iechyd
- ▶ Rydym yn gweithio gyda llawer o elusennau a sefydliadau 3ydd sector i sicrhau gweithio cydgysylltiedig a'r gweithio amlasiantaethol gorau i geisio sicrhau'r deilliannau gorau i'r rhai yn ein gofal
- ▶ Darparu asesiadau iechyd cychwynnol ar gyfer yr holl geiswyr lloches sy'n cyrraedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cofrestru gyda meddyg teulu ac asesiad cyfannol o lesiant corfforol a meddyliol
- ▶ Rydym hefyd yn gallu cynnal asesiadau cymhleth o iechyd corfforol a meddyliol ar gyfer grwpiau eraill fel sail i gynllunio gofal. Rydym yn aml yn cyfarfod â'r cleifion hyn trwy allgymorth pendant neu glinigau "galw heibio".

# Ystadegau

Mae'r gronfa ddata'n bodoli ers Gorffennaf 2020

- ❖ Ceiswyr Lloches 1425
- ❖ Ffoaduriaid 272
- ❖ Digartref 260
- ❖ Teithwyr Roma 11
- ❖ Gweithwyr rhyw 3
- ❖ Ffoaduriaid o'r Wcráin 274
- ❖ Ffoaduriaid o Afghanistan 57

# Llais Defnyddwyr Gwasanaethau



# Lluniau o'n gwaith!



# Manteision y Tîm

- ▶ Agwedd gyfannol at anghenion gofal a chynllunio
- ▶ Mae'r tîm wedi'i hyfforddi mewn therapiau a gallant ddarparu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
  - ▶ Ymagwedd sy'n cael ei llywio gan drawma
  - ▶ Perthnasoedd gwaith cryf rhwng asiantaethau
    - ▶ Eiriolaeth
  - ▶ Ystod eang o wybodaeth, profiad a sgiliau



## Astudiaeth Achos 1 - Miss Z

Roedd Miss Z yn ceisio lloches a chafodd ei symud i Gasnewydd. Anfonwyd yr atgyfeiriad trwy asiantaeth bartner - Clearsprings Housing

Problemau'r unigolyn:

Trawma difrifol, diffyg maeth ac iechyd meddwl gwael

- ▶ Cafodd Miss Z ei hasesu gan weithiwr cymorth gofal iechyd y gwasanaeth iechyd cynhwysol, ac fe'i cyfeiriwyd at asiantaethau priodol gan gynnwys gwasanaethau deintyddol, BAWSO, dietegydd, meddyg teulu, a dechreuodd gael cwnsela.
- ▶ Trwy gefnogaeth barhaus ac ymgysylltiad â'r gwasanaeth iechyd cynhwysol, tyfodd ei hyder. Dechreuodd gymryd gwersi Saesneg ac ymunodd â'i heglwys leol.
- ▶ Mae hi bellach yn gweithio'n rhan-amser i asiantaeth gofal ac mae yn y broses o gael ei hyfforddi i fod yn gefnogwr cymheiriaid iechyd meddwl o fewn grŵp yr eglwys.
- ▶ Mae hi nawr yn cael effaith gadarnhaol ar ein cymuned ac mae ganddi ddyfodol disglair. Dwedodd wrth ein gweithiwr cymorth gofal iechyd "Rydw i eisiau bod yn union fel chi"

## Astudiaeth Achos 2- Mr A

Roedd Mr A yn ddydd digartref a gafodd ei ddwyn i sylw'r gwasanaeth iechyd cynhwysol gan Fyddin yr Iachawdwriaeth, a chafodd driniaeth yng nghlinigau galw heibio'r gwasanaeth

Problemau'r unigolyn:

dryswch, colli lleferydd a chael ei fwrw allan o'i lety dros-dro oherwydd arogl wrin

- ▶ Roedd Mr A wedi cael ei dderbyn i'r ysbyty o'r blaen oherwydd dryswch na chafodd ei ddatrys yn yr ysbyty, a phenderfynodd adael
- ▶ Cafwyd sawl galwad 999 gan aelodau pryderus o'r cyhoedd ynghylch ei les, gan ei fod yn cysgu mewn pyllau dŵr.
- ▶ Cafodd ei dderbyn i'r ysbyty trwy'r ganolfan llif, ond penderfynodd adael eto. Daeth yr heddlu ag ef yn ôl, ac yn dilyn archwiliad gan dîm amlddisgyblaethol a ysgogwyd gan y gwasanaeth iechyd cynhwysol, cafodd ei roi o dan orchymyn difeddu rhyddid (DoLS)
- ▶ Roedd ymchwiliadau gan gynnwys CT o'r pen wedi'u cynnal ac roeddent yn normal, ond ni chynhaliwyd unrhyw MRI. Roedd ei Ymarferydd Naturopathig (ANP) dan hyfforddiant yn gweithredu fel eiriolwr i Mr A a gofynnodd am MRI
- ▶ Daeth MRI i'r casgliad bod dirywiad yn ymennydd Mr A, a bod hynny'n esbonio'r diffyg lleferydd, anymataliaeth a balans gwael.
- ▶ Mae Mr A yn parhau i fod yn ddiogel yn yr ysbyty, yn aros am gynllun rhyddhau priodol gan ystyried ei anghenion unigol



“

Rhywfaint o'r Adborth a dderbyniwyd gan ein cleientiaid hyd yn hyn

“Fe wnaethoch chi i mi deimlo'n normal””

“Diolch am wrando”

“Diolch yn fawr am ein Nadolig; mae'n golygu i mi a'r plant gael y Nadolig gorau eleni”

“Oni bai amdanoch chi, byddwn wedi bod ar y strydoedd o hyd; alla i ddim diolch digon i chi

“Rydych chi wedi bendithio fy mywyd”

# Ydyn ni yno eto?

1. Mae gennym dipyn o ffordd i fynd eto i wneud y gorau o botensial y gwasanaeth; mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei gyflawni yn cynnwys:
2. Lleoliad hygyrch i'r tîm yn y gymuned sy'n hygyrch i'r cymunedau rydym yn eu cefnogi
3. Mwy o amrywioldeb yn y gweithlu i wella ymddiriedaeth a chynyddu ymgysylltiad
4. Cynydd yn y gweithlu i allu cyrraedd mwy o bobl yn ein grwpiau o gleientiaid
5. Ymgorffori lechyd Cynhwysiant mewn cynllunio strategol fel un o flaenoriaethau Bl Aneurin Bevan
6. Cynyddu gwelededd y gwasanaeth mewn practisau meddygon teulu, ysbytai, gwasanaethau iechyd meddwl a sefydliadau addysg
7. Dechrau edrych ar lwybrau ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches a llwybrau ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal
8. Dadansoddiad data cadarn i gefnogi datblygu/ailgynllunio gwasanaethau yn y dyfodol



**Gwasanaeth digartrefedd dan arweiniad nyrs –  
profiadau dysgu a straeon llwyddiant**

**Dr Rebecca Bullingham**

Uwch Ymarferydd Nyrsio

***Email: [Rebecca.bullingham3@wales.nhs.uk](mailto:Rebecca.bullingham3@wales.nhs.uk)***

**Oakfield Street Surgery, Ystrad Myanch,  
Caerphilly.**

**Nid** yw pobl sy'n ddigartref yn 'anodd eu cyrraedd'

Mae gwasanaethau **yn 'anodd** eu cyrraedd' i bobl sy'n  
ddigartref.

McNeill, S., O'Donovan, D. & Hart, N. (2022)

# Pam cafodd y gwasanaeth ei greu?

## Daeth gwasanaethau digartrefedd statudol yn yr ardal atom

- Trigolion digartref gydag iechyd sy'n gwaethygu
- Clwyfau heb eu trin
- Iechyd Meddwl
- Pryderon Iechyd Cyhoeddus
- Atal eu hopsiynau tai
- Anhawster cael mynediad at ofal sylfaenol
- Dim cyfeiriad
- Dim ffôn i wneud apwyntiad
- Anllythrennedd
- Amharodrwydd i fynychu oherwydd profiad blaenorol



Rydw i yma i gofrestru gyda meddyg teulu. Mae gen i'r hawl i gofrestru gyda meddygfa a chael triniaeth.

- Gall unrhyw un yng Nghymru gofrestru gyda meddyg teulu i gael triniaeth
- Does dim angen imi gael cyfeiriad sefydlog na dull adnabod
- Gall unrhyw un yng Nghymru sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu gael presgripsiwn am ddim
- Mae gen i'r hawl i ofyn i ddarparwr gofal iechyd am gyfieithydd, a'r hawl i gael y gwasanaeth hwnnw **HEB UNRHYW GOST.**



I am here to register with a GP. I have the right to register and receive treatment from a GP practice.

- Anyone in Wales can register with a GP for treatment
- I do not need a fixed address or identification
- Anyone in Wales registered with a GP can get free prescriptions
- I have the right to request and be provided with an interpreter by healthcare providers **AT NO COST.**



Os oes gen i unrhyw broblemau, gallaf ffonio **111** yng Nghymru (rhif ffôn am ddim) neu **0845 46 47**.

Os byddaf angen rhagor o wybodaeth gallaf fynd i: <https://111.wales.nhs.uk/default.aspx?locale=cy> a <https://noddfa.llyw.cymru/iechydallies>

- Efallai y byddaf angen help i lenwi ffurflenni.
- Efallai y byddaf angen help i ddarllen a deall.
- Hoffwn siarad gyda rhywun yn gyfrinachol.



If I have any problems I can call **111** in Wales (which is free to call) or **0845 46 47**.

If I need more information I can visit: <https://111.wales.nhs.uk/> and <https://sanctuary.gov.wales/healthandwellbeing>

- I may need help filling in forms.
- I may need help reading and understanding.
- I would like to speak to someone confidentially.

## Cais i gael eich cynnwys ar restr cleifion (Cymal 173)

- 173. Yn amodol ar gymal 174, rhaid i'r cais am gael eich cynnwys yn *rhestr cleifion y Contractwr*
- gael ei wneud gan y sawl sy'n gwneud y cais, neu berson a awdurdodwyd ganddo,
- trwy gyflwyno ffurflen gais i'r Contractwr
- (gan gynnwys ffurflen gais electronig). Rhaid i'r Contractwr beidio â gwneud prawf o adnabyddiaeth neu gyfeiriad yn rhagofyniad i ymgeisydd gael ei gynnwys yn *rhestr cleifion y Contractwr* (na gwneud cais yn amodol ar ddangos prawf adnabyddiaeth neu gyfeiriad o'r fath).

A oes gennym ni lawer o  
drigolion digartref yng  
Nghaerffili?



# Cefndir

## Demograffeg digartrefedd Caerffili: 2021

Categori digartrefedd	Nifer hysbys ar hyn o bryd o bobl
Gwely a Brecwast	121
Uned frys i'r digartref	44
Cartrefi dros-dro i bobl ifanc 16-24 oed	38
Rhai sy'n Cysgu ar y Stryd	35
Llety brys ar gyfer dioddefwyr trais domestig – menywod a phlant	21
<b>259</b>	

**2024 – 760**

**Mae llety o'r fath yn orlawn, gyda rhestr aros**

## Cefndir; parhad..

- Un o'r 5 ardal fwyaf poblog (5/20) yng Nghymru
- Yn gyson yn un o ddwy ardal fwyaf difreintiedig Cymru.
- Dim mynediad uniongyrchol i wasanaethau ar gyfer preswylwyr digartref
- Yn dibynnu ar wasanaethau allgymorth yn unig.

Dim mynediad gofal iechyd pwrpasol i gleifion digartref yn y fwrdeistref

## Beth wnaethom ni?

- Ymgynghorwyd ag **asiantaethau digartrefedd** “beth sydd ei angen arnoch chi?”
- Ymgynghorwyd â **thrigolion digartref** “beth sydd ei angen arnoch chi?”
- Wedi cysylltu â'r bwrdd iechyd am statws '**gwasanaeth wedi'i wella'**
- Ffurio llwybr ar wahân o fewn y practis ar gyfer **mynediad hawdd**

**Ymagwedd practis cyfan!**

## **Mynediad** gydag ymagwedd 'rydyn ni'n gallu'

- Dim VIP's; mae **unrhyw un** yn gallu atgyfeirio claf digartref newydd – mae gan asiantaethau rif uniongyrchol ac e-bost.
- Byddant yn cymryd manylion cryno, ac yn pennu slot asesu o fewn 1 wythnos.
- Materion brys ac argyfwng yn cael eu gweld o fewn 24 awr (dydd Llun i ddydd Gwener).

## Cofrestru ac Aseu

- Mae'r claf yn mynychu ac yn **cofrestru fel claf parhaol**. Rhoddir cymorth os oes angen.
- Defnyddir cyfeiriad D/O yn aml.
- Cysylltir â meddyg teulu blaenorol (os yw'n berthnasol).

# Cofrestru ac Aseu

- Defnyddir fersiwn electronig wedi'i haddasu o **asesiad digartrefedd Sefydliad Nyrsio'r Frenhines**:
- **Gorffennol** (Hanes meddygol blaenorol, iechyd teulu, iechyd meddwl, y defnydd o gyffuriau, problemau cymdeithasol, trais)
- **Presennol** (materion iechyd corfforol, proffilio gwaed gan gynnwys BBV, iechyd teulu, iechyd meddwl, y defnydd o gyffuriau, problemau cymdeithasol, trais)
- **Dyfodol** (Cynllun iechyd, atgyfeiriadau, brechiadau, cynlluniau cymdeithasol)

Anelu at ymgynghoriad '**siop un stop**'.

## **Mynediad at Wasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS)**

- **Cedwir cofnod o asesiad manwl – nid oes angen i'r claf ailadrodd ei hanes.**
- **Fel arfer ymdrinnir â materion ar unwaith sy'n lleihau apwyntiadau dilynol hir gyda meddygon teulu.**
- **Cedwir cofnod o gynlluniau gweithredu (os yw'n berthnasol) ar gyfer parhad gofal.**
- **Gellir cael mynediad at wasanaethau GMS yn ôl yr angen; gall asiantaethau gofal archebu gan ddefnyddio llinell benodol os oes angen.**

# Ystadegau gwasanaeth

- Mae'r gwasanaeth wedi hwyluso dros 233 o asesiadau cleifion newydd mewn 45 mis – > 5 y mis
- Mae gennym 95 o gleifion digartref wedi'u cofrestru ar hyn o bryd (dros 40%)
- Mae mwyafrif y llwyth achosion sefydlog yn bobl sy'n cysgu ar y stryd yn rheolaidd
- Mae dros 95% o'r holl gleifion a aseswyd yn oroeswyr trais
- Mae dros 75% o gleifion yn defnyddio meddyginiaeth iechyd meddwl
- Nid yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi defnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol yn effeithiol cyn cofrestru
- Mae firysau a gludir yn y gwaed, diabetes, canser, anhwylderau'r galon a genetig yn rhai enghreifftiau o broblemau iechyd a nodwyd ymhlith cleifion.



Dynes 55 oed ar y stryd yn ddigartref ac yn cysgu ar soffas cyfeillion ers bron i 10 mlynedd. Nid oedd wedi ymwneud yn dda â gofal sylfaenol o'r blaen; mynychodd y gwasanaeth oherwydd diffyg anadl a blinder cynyddol. Canfu'r asesiad hanes teuluol o glefyd y galon a thueddiad i farw'n ifanc. Nodwyd hefyd bwysedd pwls isel gyda Phwysedd Gwaed o 128/100 a churiad calon afreolaidd. Nododd proffiliau gwaed pellach gyfanswm colesterol o 8.9 mmol/l (heb newid pan wnaed eto ar ôl ymprydio) a diffyg fitamin D o 19 nmol/l. Atgyfeiriwyd y claf a chafodd ei gweld gan yr adran gardioleg; rhoddwyd meddyginiaeth briodol iddi a chanfuwyd bod ganddi nifer o gymhlethdodau cardiaidd y byddai'n debygol o fod wedi effeithio arni ers blynyddoedd lawer. Mae hi bellach yn sefydlog ar ei meddyginiaeth, yn ymgysylltu'n dda â gwasanaethau iechyd ac yn gwneud ymdrech ymwybodol i newid ei ffordd o fyw.

## Stori claf 2

### **Dyn 25 oed yn cysgu ar y stryd:**

- Llosgwyd ei babell 3 gwaith.
- Dim cyswllt teuluol oherwydd ei ymddygiad.
- Bu ganddo gyswllt â meddyg teulu ar gontract ymddygiad – dim cyswllt gweithredol gan ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei 'wyllo' a'i 'farnu'.
- Bu'n mynychu adrannau damweiniau ac achosion brys yn rheolaidd.
- Roedd yn prynu diazepam i helpu gyda'i gyflwr iechyd meddwl a sefyllfa ei fywyd. Dim cyswllt â theulu oherwydd ymddygiad.

### **Ers ymwneud â'n gwasanaeth.**

- **Wedi dechrau ar SSRI (gwrth-iselder) ac yn ymwneud yn dda.**
- **Heb fynychu adrannau damweiniau ac achosion brys o fewn blwyddyn.**
- **Bellach yn ymwneud â'i deulu.**
- **Mae ganddo do uwch ei ben**
- **Mae'n gyflwynedig**

# Adborth

“Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi pobl i ail-ymuno â'r boblogaeth gyffredinol ac yn ôl i gael mynediad at wasanaethau allweddol. Mae'n wasanaeth sy'n torri tir newydd a'r cyntaf o'i fath ym Mwrdeistref Caerffili” **Gwasanaeth Digartref Cornerstone**

“Mae'r gwasanaeth a gynigir gan feddygfa stryd Oakfield wedi helpu ein teuluoedd i gyd yn aruthrol ac maen nhw'n rhywun y gallant ymddiried ynddynt a dibynnu arny'n nhw; maen nhw bob amser yno i helpu pan fo angen.” **Lloches Trais Domestig**

“Mae'r fenter hon wir yn dangos cryfder gweithio mewn partneriaeth ac mae'n helpu i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed. Mae'r cyntaf o'i fath yn y fwrdeistref; yn llythrennol mae wedi achub bywydau mewn rhai achosion”  
**Cynghorydd Bwrdeistref Caerffili**

# Rhagarweiniad i Gynhwysiad Iechyd: pam fod hyn yn bwysig?

## Diolch!

Gweminar

19eg Mehefin 2024

---